2006/2007

Medi 2007

Awdur: Matthew Edwards

Cyf: 633A2007

# Memorandwm Cyfrifon Ariannol

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Mae'r Archwilydd Penodedig yn bwriadu rhoi barn ddiamod ar gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru erbyn y dyddiad disgwyliedig.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb ac Argymhellion** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Mae'r Awdurdod wedi sefydlu amgylchedd rheoli cadarn ac yn ei gynnal | 6 |
| Gellir dibynnu ar y rheolaethau lefel uchel a gynhelir gan yr Awdurdod ar gyfer paratoi'r cyfrifon terfynol | 7 |
| Paratowyd y cyfrifon drafft i safon uchel | 8 |
| **Atodiadau** | |
| Cynllun Gweithredu | 10 |
| Crynodeb o ddiwygiadau nad ydynt yn fân ddiwygiadau | 12 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n briodol, yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Crynodeb

1. O dan God Ymarfer Archwilio ac Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am fynegi barn ar b'un a yw'r Datganiadau Ariannol yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y flwyddyn.
2. Cyflawnir ein Harchwiliad o Gyfrifon mewn dau gam i'n galluogi i gyflawni'r ddyletswydd hon sy'n cynnwys:
   - adolygiad o'r rheolaethau lefel uchel (neu brosesau craidd) i sicrhau y gellir dibynnu arnynt ar gyfer paratoi'r cyfrifon terfynol;
   - profion manwl o'r ffigurau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol drafft.

**Arddangosyn 1: Elfennau allweddol o'r archwiliad**

| | |
|---|---|
| **Barn ar yr archwiliad** | |
| **Rheolaethau lefel uchel** | **Archwiliad o'r cyfrifon terfynol** |

3. Prif amcan yr archwiliad hwn yw cael digon o dystiolaeth i ategu barn bod:

   '…y datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2007 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006.'
4. Ein dull archwilio, fel sy'n ofynnol gan y Safonau Archwilio Rhyngwladol yw:
   - meithrin dealltwriaeth ddigonol o'r systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol i'n galluogi i gynllunio'r archwiliad a datblygu dull archwilio effeithiol;
   - gwerthuso a phrofi'r modd y defnyddir y rheolaethau allweddol o fewn y prif systemau cyfrifyddu a rheolaeth gyllidebol, a sicrhau bod gweithdrefnau cau cyfrifon diwedd y flwyddyn cadarn ar waith;
   - defnyddio ein canfyddiadau i lywio ein Hasesiad Risg ar gyfer cynllunio'r gwaith manwl angenrheidiol yn yr archwiliad o'ch datganiadau ariannol 2006/2007;
   - cynnal Dadansoddiad Risg manwl o'r datganiadau gan ddefnyddio dulliau archwilio megis Adolygiadau Dadansoddol, gyda'r nod o sicrhau bod ein profion yn targedu meysydd o risg uwch;
   - cynnal gwaith archwilio parhaol manwl wedi'i deilwra ar y cyfrifon er mwyn adlewyrchu materion cenedlaethol a lleol;
   - cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau i swyddogion a'r Panel Gweithredol er mwyn crynhoi canfyddiadau'r archwiliad a nodi unrhyw weithdrefnau ar gyfer llunio cyfrifon y gellid eu gwella yn y dyfodol.

5. Yn gyffredinol, cafwyd bod rheolaethau mewnol lefel uchel effeithiol ar waith gan yr Awdurdod sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

6. Llwyddwyd i gyflawni'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio. Roedd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i ni yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 erbyn y dyddiad disgwyliedig o 30 Mehefin 2007 o safon uchel. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y bydd yr Awdurdod wedi darparu'r Llythyr Cynrychiolaeth i ni fel y nodwyd yn ein 'Hadroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu'.

7. Mae ein Hadroddiad Manwl yn nodi'r canfyddiadau sy'n codi o'n Harchwiliad Interim yn cynnwys y rheolaethau lefel uchel a'r materion sy'n codi o'n harchwiliad o'r Datganiadau Ariannol. Rydym wedi gwneud chwech o argymhellion fel y nodir isod.

8. Dymunwn ddiolch i'r Tîm Cyllid am eu cydweithrediad a'u cymorth yn ystod yr archwiliad.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Awdurdod gadw datganiadau sy'n cytuno ar anfonebau y bu anghydfod yn eu cylch at ddibenion archwilio. |
| A2 | Dylid datblygu nodiadau gweithdrefnau system ar gyfer y System Asedau Sefydlog. |
| A3 | Dylid anfon gweithdrefnau rheoli stoc i bob gorsaf dân unigol. |
| A4 | Dylid diweddaru Polisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod i adlewyrchu gofyniad i ddal pob buddsoddiad yn enw'r Awdurdod. |
| A5 | Dylai'r Awdurdod ymdrin â'r balans dyledwyr wedi'i addasu o £109 a geir yn y Cyfriflyfr Cyffredinol. |
| A6 | Dylai'r Awdurdod sicrhau y cesglir ffurflenni sy'n nodi partïon cysylltiedig gan bob aelod cyn cwblhau'r Datganiadau Ariannol drafft. |

## Mae'r Awdurdod wedi sefydlu amgylchedd rheoli cadarn ac yn ei gynnal

9. Y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys y cyfrifon blynyddol cyhoeddedig, yw'r ffordd hanfodol y mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Fel y nodwyd yn ein Strategaeth Archwilio 2006/2007, cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

10. Un o ragofynion hanfodol ein Harchwiliad Barn yw sicrhau y gosodwyd yr amodau cywir gan yr Awdurdod wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Dengys ein hasesiad fod yr Awdurdod wedi sefydlu amgylchedd rheoli effeithiol gyda rheolaethau mewnol da ac yn ei gynnal.

**Arddangosyn 2: Asesiad o gyfrifoldebau'r Awdurdod**

| Ffactorau allweddol | Asesiad |
|---|---|
| Strwythur trefniadol a phennu awdurdod a chyfrifoldeb | Mae gweithdrefnau a phrosesau wedi'u dogfennu'n dda a chydymffurfir â hwy yn ymarferol, ac mae rolau a chyfrifoldebau swyddogion wedi'u diffinio'n glir. |
| Effeithiolrwydd systemau ariannol allweddol yr Awdurdod | Nodwyd y systemau allweddol a bennwyd ar gyfer cynhyrchu datganiadau ariannol i roi dealltwriaeth eglur i ni o systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yr Awdurdod. Roedd y systemau allweddol a adolygwyd yn cynnwys cyflogres, credydwyr, debydwyr, asedau sefydlog, stoc a rheoli'r trysorlys.<br>Nododd ein hadolygiad y sefydlwyd rheolaethau priodol yn y rhan fwyaf o feysydd, ond ceir lle i wella'r canlynol o hyd:<br>• credydwyr - nid yw'r Awdurdod yn cadw datganiadau sy'n ategu cytundeb ynghylch anfonebau y bu anghydfod yn eu cylch i hwyluso'r archwiliad o'r datganiadau ariannol;<br>• asedau sefydlog - ni ddatblygwyd nodiadau gweithdrefn system;<br>• stoc - nid oes gweithdrefnau rheoli stoc ar waith yn y gorsafoedd tân unigol. |
| Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio | Diwygiwyd cylch gorchwyl y Panel Gweithredol ym mis Ionawr 2007 i gynnwys cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio. Newydd ddechrau goruchwylio rheolaethau mewnol yr Awdurdod y mae'r Panel Gweithredol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Panel Gweithredol ac yn monitro ei gynnydd dros y flwyddyn sydd i ddod. |

| Ffactorau allweddol | Asesiad |
|---|---|
| Effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol | Mae'r trefniadau cyffredinol ar gyfer yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio'n llawn â saith o'r 10 o safonau Archwiliad Mewnol, ond mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i ddatblygu ei drefniadau ymhellach yn cynnwys datblygu Strategaeth Archwilio ar gyfer 2007/2008 yn unol â gofynion safonau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). |

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Awdurdod gadw datganiadau sy'n cytuno ar anfonebau y bu anghydfod yn eu cylch at ddibenion archwilio. |
| A2 | Dylid datblygu nodiadau gweithdrefnau system ar gyfer y System Asedau Sefydlog. |
| A3 | Dylid anfon gweithdrefnau rheoli stoc i bob gorsaf dân unigol. |

## Gellir dibynnu ar y rheolaethau lefel uchel a gynhelir gan yr Awdurdod ar gyfer paratoi'r cyfrifon terfynol

### Mae rheolaethau yn y Brif System Gyfrifyddu yn gweithredu yn ôl y bwriad ac mae hyn yn ffurfio sail ddibynadwy i'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol

11. Mae'r Brif System Gyfrifyddu yn cael ei gweithredu yn ôl y bwriad. Mae'n ffurfio sail ddibynadwy i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol. Wrth adolygu'r cyfrifon crog a throsglwyddiadau ariannol y naill ochr i ddiwedd y flwyddyn cafwyd sicrwydd eu bod wedi cael eu cofnodi yn y cyfnod cywir.

### Mae rheolaethau lefel uchel o fewn y System Rheolaeth Gyllidebol yn gweithredu'n effeithiol

12. Mae'r rheolaethau lefel uchel a sefydlwyd gan yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol.
Dylai'r rheolaethau alluogi'r Awdurdod i nodi unrhyw wyriadau sylweddol o'r Cynllun Ariannol.

### Darparodd yr Awdurdod ei gyfrifon drafft yn unol â'i amserlen cau cyfrifon yn gynnar

13. Mae gan yr Awdurdod drefniadau digonol a hanes da o gynhyrchu ei gyfrifon yn unol â'r amserlen cau cyfrifon yn gynnar. Mae adolygiad o'r canllawiau a roddir i staff yn darparu sicrwydd bod proses cau cyfrifon yr Awdurdod yn ddigon cynhwysfawr.

## Paratowyd y cyfrifon drafft i safon uchel

14. Roedd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i ni yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 erbyn y dyddiad disgwyliedig o 30 Mehefin 2007 o safon uchel. Roedd papurau gwaith yr Awdurdod i ategu'r Datganiadau Ariannol yn gynhwysfawr ac fe'u cynhyrchwyd i safon dda. Hefyd gwnaeth yr Awdurdod ddefnydd da o groesgyfeiriadau rhwng y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol.

15. Roedd cyfrifon drafft yr Awdurdod wedi'u paratoi'n dda, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â dogfen cydbwyllgor CIPFA/LASAAC 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006: Datganiad o Arfer a Argymhellir'. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf newidiadau sylfaenol i ofynion y Datganiad o Arfer a Argymhellir 2006, a oedd yn cynnwys datgelu'r Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Symudiadau ar Falans y Gronfa Gyffredinol a Datganiad o'r Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig.

### Cafodd un o fuddsoddiadau'r Awdurdod ei ddal yn enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

16. Datgelodd adolygiad o Nodyn 23 'Buddsoddiadau' y cafodd un o fuddsoddiadau'r Awdurdod ei ddal yn enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor). Mae hyn yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod sy'n nodi 'oherwydd y symiau cymharol fach o arian parod dros ben a ddelir gan yr Awdurdod, gwneir rhai buddsoddiadau o dan enw'r Cyngor er mwyn symlrwydd, a chynhelir cofnodion manwl o'r buddsoddiadau gan staff Rheoli'r Trysorlys'.

17. Er bod y Cyngor yn cynnal llwybr archwilio clir i warantu a dilysu pob buddsoddiad a ddelir ar ran yr Awdurdod, dylid dal pob buddsoddiad yn enw'r Awdurdod.

| | |
|---|---|
| A4 | Dylid diweddaru Polisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod i adlewyrchu gofyniad i ddal pob buddsoddiad yn enw'r Awdurdod. |

### Mae'r Cyfriflyfr Cyffredinol yn cynnwys balans dyledwyr wedi'i addasu o £109

18. Datgelodd adolygiad o falansau dyledwyr yn Nodyn 21 'Dyledwyr' falans wedi'i addasu o £109. Mae hon yn eitem fantoli hanesyddol a gaiff ei gwrthbwyso gan falans cyfatebol yng Nghyfriflyfr Cyffredinol y Cyngor.

| | |
|---|---|
| A5 | Dylai'r Awdurdod ymdrin â'r balans dyledwyr wedi'i addasu o £109 a geir yn y Cyfriflyfr Cyffredinol. |

## Methodd chwe aelod â chwblhau ffurflenni partïon cysylltiedig

19. Datgelodd adolygiad o'r weithdrefn sydd ar waith i nodi'r holl drafodion gyda 'phartïon cysylltiedig', yn unol â gofynion Safon Cyflwyno Adroddiad Ariannol 8 na ddychwelwyd ffurflenni gan chwech o aelodau'r Awdurdod ar adeg yr archwiliad.

| | |
|---|---|
| A6 | Dylai'r Awdurdod sicrhau y cesglir ffurflenni sy'n nodi partïon cysylltiedig gan bob aelod cyn cwblhau'r Datganiadau Ariannol drafft. |

# Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Tudalen | Mater | Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Nid yw'r Awdurdod yn cynnal datganiadau sy'n ategu cytundeb ynghylch anfonebau y bu anghydfod yn eu cylch i hwyluso'r archwiliad o'r Datganiadau Ariannol. | A1 | Dylai'r Awdurdod gadw datganiadau sy'n cytuno ar anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch at ddibenion archwilio. | Gwell rheolaeth ariannol. | Do | Bydd y Rheolwr Cyllid yn cadw cofnod manylach o anfonebau y bu anghydfod yn eu cylch. | 30 Medi 2007 |
| 7 | Ni ddatblygwyd nodiadau gweithdrefnau system. | A2 | Dylid datblygu nodiadau gweithdrefnau system ar gyfer y System Asedau Sefydlog. | Gwell rheolaeth ariannol. | Do | Bydd y prif gyfrifon yn cynhyrchu nodiadau gweithdrefn. | 31 Hydref 2007 |
| 7 | Nid oes gweithdrefnau rheoli stoc ar waith mewn gorsafoedd tân unigol. | A3 | Dylid anfon gweithdrefnau rheoli stoc i bob gorsaf dân unigol. | Gwell rheolaeth o stoc. | Naddo | Dim ond ychydig o stoc a gedwir mewn gorsafoedd tân, ac mae'r gost o weithredu gweithdrefnau rheoli stoc yn drech na'r risgiau cynhenid cysylltiedig. | - |

| Tudalen | Mater | Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Cafodd un o fuddsoddiadau'r Awdurdod ei ddal yn enw'r Cygnor sy'n unol â threfniadau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. | A4 | Dylid diweddaru Polisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod i adlewyrchu gofyniad i ddal pob buddsoddiad yn enw'r Awdurdod. | Gwell rheolaeth ariannol. | Naddo | Gwneir rhai buddsoddiadau o dan enw'r Cyngor at ddibenion ymarferol oherwydd y symiau bach sydd gan yr Awdurdod i'w buddsoddi. Mae hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn sicrhau'r elw mwyaf posibl ar eu buddsoddiadau. Nid oes unrhyw risg i'r Awdurdod gan mai'r Cyngor sy'n wynebu'r risg gyffredinol. | - |
| 8 | Mae'r Cyfriflyfr Cyffredinol yn cynnwys balans dyledwyr wedi'i addasu o £109 a gaiff ei wrthbwyso gan falans cyfatebol yng Nghyfriflyfr Cyffredinol y Cyngor | A5 | Dylai'r Awdurdod ymdrin â'r balans dyledwyr wedi'i addasu o £109 a geir yn y Cyfriflyfr Cyffredinol. | Cynnal cywirdeb y Cyfriflyfr Cyffredinol. | Do | Cynhelir ymchwiliad pellach a gwneir cofnod addasu er mwyn ymdrin â'r anghydbwysedd. | 31 Hydref 2007 |
| 9 | Ni ddychwelwyd ffurflenni gan chwech o aelodau'r Awdurdod i gefnogi'r nodyn 'Datganiad Partïon Cysylltiedig' ar adeg yr archwiliad. | A6 | Dylai'r Awdurdod sicrhau y cesglir ffurflenni sy'n nodi partïon cysylltiedig gan bob aelod cyn cwblhau'r Datganiadau Ariannol drafft. | Cefnogi'r datganiadau partïon cysylltiedig a geir yn y datganiadau ariannol. | Do | Anfonwyd nodyn atgoffa at aelodau ond anfonir nodyn atgoffa pellach at yr aelodau hynny nad ydynt wedi cyflwyno ffurflen hyd yma. | 30 Medi 2007 |

Atodiad 2

## Crynodeb o ddiwygiadau nad ydynt yn fân ddiwygiadau

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Diwygiwyd Nodyn 7 'Ffïoedd Archwilio Allanol' o £55,857 i £51,192. Diwygiwyd y ffïoedd sy'n daladwy o dan Adran 16 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 o £32,478 i £41,452. Diwygiwyd ffïoedd sy'n daladwy mewn perthynas ag arolygiadau statudol o dan Adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 o £23,379 i £9,740. | Camddatganwyd 'ffïoedd archwilio allanol' yn y datganiad ariannol drafft. Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatgeliadau eraill yn y cyfrifon. |
| Diwygiwyd y credydwyr amrywiol a gynhwyswyd yn Nodyn 22 'Credydwyr' o £1,065,000 i £886,000. | Camddatganwyd y derbynebau ymlaen llaw a ddatgelwyd yn y balans credydwyr amrywiol yn y Datganiadau Ariannol drafft. Cynhwyswyd cofnod cyfatebol gyda'r balans debydwyr a ddatgelwyd yn Nodyn 21. Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatgeliadau eraill yn y cyfrifon. |
| Diwygiwyd y 'Diffyg Pensiwn Net' a ddatgelwyd yn Nodyn 24 'Asesiad o rwymedigaethau pensiwn ar gyfer datgeliadau FRS 17' o £169,094,000 i £171,268,000. | Camddatganwyd y 'Rhwymedigaethau Amcancyfrifedig yng Nghynllun Pensiwn y Dynion Tân' a'r 'Gyfran o Asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd' yn y Datganiadau Ariannol drafft gan nad oedd y symiau'n cyfateb i hysbysiadau gan actiwarïaid. Diwygiwyd y 'Rhwymedigaeth Bensiwn' a'r 'Gronfa Bensiwn Wrth Gefn' a ddatgelwyd yn y fantolen i adlewyrchu'r addasiad. Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatgeliadau eraill yn y cyfrifon. |
| Diwygiwyd 'Cyfraniadau at/(o) ddarpariaethau amrywiol' a ddatgelwyd yn Nodyn 25 Llif arian parod - Cysoni i'r Cyfrif Incwm a Gwariant o £503,000 i £533,000 gydag addasiad cyfatebol yn Nodyn 25 i Grantiau'r Llywodraeth a Ohiriwyd, a ddiwygiwyd o £0 i £30,000. | Camddatganwyd y cyfraniad o ddarpariaethau yn y Datganiad Llif Arian Parod' yn y Datganiadau Ariannol drafft. Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatgeliadau eraill yn y cyfrifon. |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk